Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n ei hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

Dod i adnabod



Ifan Morgan Jones

Ifan Morgan Jones yw arweinydd y cwrs Newyddiaduraeth ym Mhrifysgol Bangor. Enillodd wobr Llyfr y Flwyddyn a Gwobr Barn y Bobol 2020 am ei nofel *Babel*, Gwobr Goffa Daniel Owen yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008 am ei nofel *Igam Ogam*, a chafodd ei nofelau eraill, *Yr Argraff Gyntaf* (2010) a *Dadeni* (2017), ganmoliaeth uchel. Bu'n olygydd ar wefannau newyddion Nation.Cymru a Golwg360. Mae'n byw gyda Llinos a'u plant Mari, Magw, Jano a Radi yng Nghroeslan ger Llandysul.

Crynodeb:

Antur fentrus a gwyliau am ddim... ?
Sut allai Efa, Myfyr, Teleri ac Aled wrthod? Ond pan maen nhw'n glanio ar yr ynys egsotig ymhell o Gymru mae paradwys yn bell o fod yn berffaith. Mae yna fwy i gynlluniau Capten Morys na dod o hyd i drysor Barti Ddu. Ac mae gan yr ynys ei hun gyfrinachau brawychus sydd ar fin dod i'r wyneb.

Nofel gyffrous am rym, dial a chwant a fydd yn mynd â'r darllenydd ar daith gyffrous wrth chwilio am Gymru newydd.

'Stori hynod fywiog gan storïwr-wrth-reddf sy'n rhyfeddol o amserol, dameg gwbl hanfodol a bywiog am y Gymru gyfoes.' – Jon Gower

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu Brodorion?
Mae'n nofel am bobol ar ynys felly fe fyddai rhywun yn meddwl efallai y byddai'r profiad o hunan-ynysu yn ystod y pandemig wedi bod yn ddylanwad arni. Ac efallai fod hynny'n wir gan fy mod i wedi dechrau ei hysgrifennu hi reit ar ddechrau'r pandemig a'i gorffen yn ystod yr ail don... Rwy'n credu bod digwyddiadau'r flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys ymgyrch Black Lives Matter, wedi bod yn ddylanwad ar y nofel hefyd o ran y themâu yn ymwneud â gwladychiaeth a faint o hawl sydd gan unrhyw un i feddiannu darn o dir, hyd yn oed os oedden nhw'n meddwl bod neb yn ei ddefnyddio ar y pryd.

Dywedwch ychydig am y stori rydych chi wedi'i chreu ...
Mae gan y nofel sawl tro ynddi felly dydw i ddim am ddweud gormod rhag ofn i mi sbwylio'r stori! Yn y bôn, mae pedwar o bobol ifanc yn mynd i ynys drofannol, wedi eu denu yno gan berson arall sydd wedi addo gwyliau braf yn yr haul iddyn nhw. Am mai nofel yw hon efallai na fydden i'n datgelu gormod petawn i'n awgrymu bod pethau yn mynd o chwith, nad yw'r cymeriadau yn bod yn gwbwl onest gyda'i gilydd o'r dechrau, nad yw'r ynys yr hyn y mae hi'n ymddangos, fod yna siarcod danheddog, cyfrinachau poenus, carwriaethau cudd, meddwi, dial a damweiniau angheuol! Ac, wrth gwrs, brodorion.

Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnoch drwy eich bywyd?
Mae gan Brifysgol Bangor un o'r llyfrgelloedd gorau yn y wlad, os nad y byd, yn fy marn i – mae'n brydferth ond yn ddigon bach i fod yn gartrefol a chysurus hefyd. Os ydw i eisiau i'r awen lifo rydw i'n mynd yno yng nghwmni fy ngliniadur ac yn eistedd wrth y silffoedd sy'n llawn o nofelau Cymraeg. Dyw'r awen erioed wedi pallu llifo yno – efallai ei bod yn diferu o'r llyfrau o 'nghwmpas i.

ylolfa
www.ylolfa.com

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru